

# Adroddiad Ansawdd Archwilio 2023

Gwella ymddiriedaeth mewn archwilio

Hydref 2023

Mae'r Adroddiad Ansawdd Archwilio hwn yn cwmpasu ein trefniant a gweithgarwch monitro ansawdd archwilio dros y 12 mis diwethaf.

Archwilio Cymru yw'r enw anstatudol cyfun am Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân ac sydd â'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol. O ganlyniad, yn yr Adroddiad hwn, rydym yn cyfeirio'n benodol at yr Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru mewn adrannau lle mae angen bod yn gyfreithiol fanwl.

Os oes arnoch angen y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'i gynnwys, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion isod.

Audit Wales  
1 Cwr y Ddinas  
Stryd Tyndall  
Caerdydd, CF10 4BZ

Ffôn 02920 320 500  
E-bost [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)  
Gwefan [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)  
Twitter [@WalesAudit](https://twitter.com/WalesAudit)

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.  
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.  
This document is also available in English.

# Ynglŷn ag Archwilio Cymru

Ar ran pobl Cymru, rydym yn archwilio gwariant cyhoeddus ac yn adnabod ffyrdd i wella gwasanaethau cyhoeddus. Mae ein gwaith yn cynorthwyo'r Senedd a chynrychiolwyr etholedig lleol i graffu'n effeithiol ar arian cyhoeddus. Rydym yn gwbl annibynnol ar y llywodraeth.

## Beth ydym yn ei wneud?

### Rhoi sicrwydd



Pobl Cymru bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda

### Egluro



sut y mae arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio a sut mae'n diwallu anghenion pobl

### Ysbrydoli



a grymuso'r sector cyhoeddus yng Nghymru i wella

## Beth yw ein huchelgeisiau?



Manteisio'n llawn ar ein persbectif unigryw, ein harbenigedd a dyfnder ein dirnadaeth



Cryfhau ein safle fel llais awdurdodol, dibynadwy ac annibynnol



Cynyddu ein hamlygrwydd, ein dylanwad a'n perthnasedd



Bod yn sefydliad enghreifftiol i'r sector cyhoeddus yng Nghymru a thu hwnt

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am Archwilio Cymru yn ein [Cynllun Blynyddol 2023-24](#) a'n [Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23](#).

# Cynnwys

|                                                                                                                                                                |    |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----|
| Archwilio sy'n seiliedig ar fudd y cyhoedd – Yr Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru                                                    | 5  |
| Cyflawni gwaith archwilio modern ac effeithlon sy'n canolbwyntio ar y pethau hynny sy'n bwysig i'n cymdeithas – Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Archwilio | 7  |
| Sylwebaeth annibynnol – Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol                                                                                   | 9  |
| Rhan 1: Trosolwg o Archwilio Cymru                                                                                                                             | 11 |
| Rhan 2: Cyflawni ansawdd archwilio                                                                                                                             | 13 |
| Rhan 3: Deilliannau ansawdd archwilio                                                                                                                          | 29 |

# Archwilio sy'n seiliedig ar fudd y cyhoedd

Mae'r awdur David Houle wedi rhagfynegi mai'r 2020au fydd y 'degawd mwyaf aflonyddol mewn hanes'. Mae'n dweud, o'i gymharu â 150,000 o flynyddoedd o hanes dynol, y gellir mesur yr oes 'ddiwydiannol' (o injans stêm i ffônau) dros oddeutu 250 o flynyddoedd, tra bo'r 'oes wybodaeth' (o'r cyfrifiadur prif ffrâm i'r ffôn clyfar) wedi cymryd tua 50 o flynyddoedd. Yn y degawd sydd i ddod yn unig, mae gwyddonwyr yn rhagfynegi datblygiadau bythol gynyddol mewn meysydd fel:

- niwrowyddoniaeth o ran mapio'r ymennydd dynol, sydd â'r potensial i drawsnewid triniaeth ar gyfer iechyd meddwl;
- genomeg a golygu genynnau i addasu mwtadiadau DNA sy'n gallu arwain at glefydau difrifol; a
- dysgu peirianyddol, deallusrwydd artifisial a roboteg, a allai drawsnewid busnes a masnach, y modd y rheolir gofal iechyd, cymorth i gwsmeriaid a thrafnidiaeth (trwy'r defnydd o gerbydau awtonomaidd a dronau).

Os yw'r rhagfynegiadau hyn yn gywir, yna bydd y cyflymder newid yma'n creu heriau i wasanaethau cyhoeddus a llywodraethau na fyddir yn llwyddo i fynd i'r afael â hwy heb ymddiriedaeth.

Fodd bynnag, yn ôl arolwg gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn 2022<sup>1</sup>, dywedodd 49.2% o'r rhai a arolygwyd ym Mhrydain Fawr fod ganddynt ymddiriedaeth isel neu nad oedd ganddynt unrhyw ymddiriedaeth o gwbl yn y llywodraeth genedlaethol o'i gymharu â 34.8% a oedd ag ymddiriedaeth uchel neu weddol uchel. Yn ôl yr adroddiad hwn gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd:

'Dangosodd data hanesyddol ei bod hi'n cymryd amser hir i ailfeithrin ymddiriedaeth pan fo'n cael ei lleihau; cymerodd tua degawd, er enghraifft, i ymddiriedaeth y cyhoedd adfer o argyfwng (ariannol) 2008. Dyma pam fod angen i wledydd fuddsoddi ar frys mewn ailsefydlu ymddiriedaeth i fynd i'r afael â'r heriau polisi sydd o'u blaenau.'

Rydym ni'n parhau i gredu bod gan archwilio rôl arwyddocaol i gefnogi'r llywodraeth a'i dwyn i gyfrif dros y degawd nesaf a'r tu hwnt ac i helpu i ailfeithrin ymddiriedaeth wrth i'n cymdeithas ddod i delerau ag aflonyddwch diweddar ac addasu i newid.

Er mwyn i ni gael ein gweld a'n derbyn fel sylwebydd dibynadwy y mae ein cymdeithas yn dyheu amdano, mae angen i ni barhau i feithrin diwylliant sydd â ffocws ar y safonau uchaf o ran ansawdd archwilio, sy'n canolbwyntio ar y meysydd cywir; sy'n gwneud hynny mewn ffordd effeithlon, fodern a chost-effeithiol; sy'n gwneud y gorau o dechnoleg newydd; ac sy'n adrodd mewn ffordd eglur, gytbwys a phendant – themâu y mae Ann-Marie yn eu harchwilio ymhellach yn ei chyflwyniad hi, 'Cyflawni gwaith archwilio modern ac effeithlon sy'n canolbwyntio ar y pethau hynny sy'n bwysig i'n cymdeithas'.

<sup>1</sup> [Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd \(2022\), Building Trust to Reinforce Democracy: Main Findings from the 2021 OECD Survey on Drivers of Trust in Public](#)

Mae enw da'r proffesiwn archwilio'n dal i fod wedi'i niweidio o ganlyniad i sancsiynau ariannol mawr<sup>2</sup> am ansawdd archwilio gwael a osodwyd gan y Cyngor Adrodd Ariannol (FRC); nodweddu'r system archwilio llywodraeth leol yn Lloegr gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (PAC)<sup>3</sup> fel un sydd 'ar ben ei thennyn' ac yn gwaethygu; a digwyddiadau rhyngwladol, fel gwybodaeth gyfrinachol am gynlluniau treth gan y llywodraeth yn Awstralia'n cael ei datgelu a'i chamddefnyddio gan un o'r prif gwmnïau archwilio<sup>4</sup>.

Er mwyn i ni wireddu ein huchelgais i fod yn sylwebydd dibynadwy, mae angen i'r proffesiwn archwilio weithredu ag ymdeimlad o frys, â diben unedig ac â grym newydd i adennill ei 'statws gwyb' <sup>5</sup>.

Rydym yn falch, ac iawn yw hynny, o'n model archwilio ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru: model sy'n seiliedig ar fudd y cyhoedd; a gaiff ei atgyfnerthu gan sgil, gwrthrychedd ac uniondeb ein pobl; a'i goroni gan ein hannibyniaeth.

Fel Cadeirydd ac Archwilydd Cyffredinol mae gennym ymrwymiad cyffredin a llwyr i ansawdd archwilio ac rydym yn benderfynol o warchod enw da ein model archwilio rhag dylanwadau allanol niweidiol gan hefyd chwarae rhan mewn ymdrechion i warchod y proffesiwn ehangach. Yn yr Adroddiad Ansawdd Archwilio hwn, rydym yn nodi sut yr ydym yn gweithio i gyflawni hyn ac i wasanaethu budd y cyhoedd yn well.



**Adrian Crompton**  
Archwilydd Cyffredinol  
Cymru



**Dr Kathryn Chamberlain**  
Cadeirydd, Swyddfa  
Archwilio Cymru

<sup>2</sup> [Adolygiad Gorfodi Blynnyddol y Cyngor Adrodd Ariannol 2023](#)

<sup>3</sup> [PAC: Unacceptably high backlog in local government audit system may get worse before improving - Pwyllgorau – Senedd y DU](#)

<sup>4</sup> [PwC Australia sacks eight partners over tax leak scandal | Reuters](#)

<sup>5</sup> Sarah Rapson, Prif Weithredwr Dros Dro a Chyfarwyddwr Gweithredol Goruchwyliaeth

# Cyflawni gwaith archwilio modern ac effeithlon sy'n canolbwyntio ar y pethau hynny sy'n bwysig i'n cymdeithas

Fel y mae Adrian a Kate yn ei amlygu, mae'r cyfleoedd a'r heriau sy'n ein hwynebu fel cymdeithas yn eithaf sylweddol. Mae angen i'n hymateb fel archwilywyr fod yn bellgyrhaeddol, canolbwyntio ar y dyfodol a bod yn seiliedig ar y safonau uchaf o ran arfer proffesiynol rhyngwladol.

Fy rôl fel Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio yw rhoi trefniadau ar waith i gyrraedd y safonau uchaf hyn a gweithio gyda chydweithwyr ym maes arweinyddiaeth i greu amgylchedd lle gall ansawdd archwilio ffynnu.

Mae'n rhaid i ddiwylliant sy'n gwbl ymrwymedig i ansawdd archwilio fod y sylfaen yr ydym yn adeiladu arni. Felly, roeddwn wrth fy modd i lywyddu Symposiwm Ansawdd Archwilio Cymru 2023 ym mis Ebrill, digwyddiad a oedd wedi'i fwriadu i atgyfnerthu ein hymrwymiad i fod yn arweinwyr lle mae ansawdd yn y cwestiwn. Fe alluogodd y digwyddiad hwn gydweithwyr i glywed gan ffigurau blaenllaw o broffesiwn archwilio'r sector cyhoeddus, gan gynnwys o'r Cyngor Adrodd Ariannol, Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr a'n partneriaid yn y fforwm archwilio cyhoeddus ac i drafod rhai o'r materion pwysig sy'n dod i'r amlwg yr ydym yn ymgiprys â hwy fel proffesiwn. Cefais fy nghalonogi'n fawr i ddarllen meddyliau Sian Davies ar y Symposiwm (paragraff 27) a'r neges a gymerodd hi i o'r digwyddiad mai ein huchelgais yw '... sicrhau bod ansawdd yn greiddiol i'n holl waith.' Rwy'n cytuno'n llwyr.

Fel y sonia Sian hefyd, clywsom gan Gareth Davies, Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, am bwysigrwydd ansawdd sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth, thema sydd wir yn gyson â'r negeseuon a gyflwynwyd gan Adrian a Kate. Siaradodd Gareth hefyd am yr heriau sy'n wynebu'r proffesiwn cyfrifyddu ac archwilio i glirio ôl-groniad enfawr o archwiliadau llywodraeth leol yn Lloegr.

Mae'r ôl-groniad brawychus o archwiliadau llywodraeth leol yn Lloegr, y mae rhai ohonynt yn dyddio'n ôl i 2015-16 ac a waethygydd gan bandemig COVID-19, yn golygu bod tua 630 o farnau archwilio hwyr ym mis Tachwedd 2022<sup>6</sup>. Un elfen allweddol ar gyfer cyflawni gwaith archwilio sydd o ansawdd da ac yn cael effaith fawr yw amseroldeb adroddiadau. Mae hyder y cyhoedd, tryloywder ac atebolrwydd democrataidd yn dibynnu ar swyddogaeth archwilio amserol a chadarn.

Mae oedi wrth ardystio gwaith archwilio'n ei gwneud hi'n llawer mwy o her asesu a yw gwerth am arian yn cael ei gyflawni. Yn ôl y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus<sup>6</sup>, mae'r oedi hwn yn creu perygl y bydd materion llywodraethu'n cael eu hadnabod yn rhy hwyr mewn £100 biliwn o wariant gan lywodraeth leol. O ganlyniad, rydym wedi gweld nifer o fethiannau difrifol yn Lloegr, fel y gwendidau systemig a arweiniodd at golli £1.3 biliwn o arian cyhoeddus gan Gyngor Thurrock oherwydd cyfres o fuddsoddiadau aflwyddiannus.

<sup>6</sup> 'Timeliness of local audit reporting' – Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (PAC), Tŷ'r Cyffredin (Mehefin 2023)

Mewn ymateb i'r problemau mawr hyn, mae'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau wedi cynnig ystod eang o fesurau gan gynnwys defnyddio amodiadau ac ymwadiadau barn eang i ddileu'r ôl-groniad.

Rwy'n llwyr gydnabod y problemau anhydrin sy'n wynebu system llywodraeth leol Lloegr ar hyn o bryd, ond rwy'n pryderu ynghylch goblygiadau mesurau mor ddrastig ar gyfer y proffesiwn archwilio cyhoeddus ehangach. Yn fwy nag erioed, rhaid i ni ymdrechu i sicrhau ein bod yn diogelu ac yn hyrwyddo gwerth a phwysigrwydd archwilio cyhoeddus yng Nghymru.

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi cymryd camau sylweddol i barhau i esblygu ein dulliau archwilio ac i fuddsoddi yn eu datblygiad.

Rydym wedi ymrwmo i ddylunio rhaglen o waith archwilio perfformiad sy'n ddeinamig, wedi'i thargedu, ac yn cael effaith fawr fel a nodir yn ein Strategaeth Pum Mlynedd. Er mwyn ategu'r Strategaeth, rydym wedi datblygu blaenraglen ddangosol, a drefnwyd gan adborth rhanddeiliaid ac a fydd yn canolbwyntio ar bedair thema:

- mynd i'r afael ag anghydraddoldeb
- ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur
- cydnherthedd gwasanaethau a mynediad atynt
- gwasanaethau cyhoeddus a reolir yn dda

Rydym hefyd wedi mabwysiadu safonau proffesiynol Sefydliad Rhyngwladol y Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI) i barhau i wella eglurder ac effaith ein hadroddiadau.

Mae ein dull archwilio cyfrifon diwygiedig, a ategir gan blatfform archwilio newydd, wedi'i fwriadu i adnabod risgiau ac ymateb i risgiau yn fwy effeithiol fel y gall ein timau ganolbwyntio'n fwy effeithlon ar y meysydd pwysicaf yn y cyfrifon. Wrth edrych tua'r dyfodol, ein huchelgais yw awtomeiddio rhai prosesau archwilio a pharhau i ddatblygu ein hoffer dadansoddi data i gefnogi ansawdd ac effeithlonrwydd ein gwaith yn well.

Mae'r newidiadau hyn yn cynrychioli rhaglenni newid pellgyrhaeddol a pharhaus ar gyfer ein holl dimau archwilio. Gwn pa mor anesmwyth y gall newid o'r fath fod.

I fod yn llwyddiannus, mae ar y rhaglenni newid hyn angen gweledigaeth glir, y bu'r Symposiwm o gymorth i'w sicrhau yn fy nhyb i; mae arnynt angen arweinyddiaeth ymrwymedig, y gwn fod fy nhîm o gyfarwyddwyr a minnau'n benderfynol o'i darparu; a bydd arnynt angen i bob rhan o Archwilio Cymru fod yn gweithio tuag at un amcan.

Rwy'n llwyr gredu, trwy weithio fel un tîm, y gall Archwilio Cymru ddarparu gwaith archwilio modern ac effeithlon ar gyfer pobl Cymru sy'n canolbwyntio ar y pethau hynny sy'n bwysig i'n cymdeithas.



**Ann-Marie Harkin**

Cyfarwyddwr Gweithredol y  
Gwasanaethau Archwilio

# Sylwebaeth annibynnol

## Cyflwyniad

Rwy'n nodi isod yr adroddiad blynyddol y mae'n ofynnol i mi, fel Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol a Chadeirydd ein Pwyllgor Ansawdd Archwilio, ei ddarparu i'r Archwilydd Cyffredinol a Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru ar:

- effeithiolrwydd ein trefniadau ansawdd archwilio; a
- digonolrwydd yr adnoddau a neilltuir i'r trefniadau hynny.

Mae ansawdd archwilio'n greiddiol i bopeth y mae arnom eisiau ei gyflawni fel Archwilio Cymru a rhaid iddo aros felly. Mae'n hanfodol felly ein bod yn cynnal safonau uchel o ran ansawdd archwilio er mwyn inni ddiogelu a gwella ein safle fel llais awdurdodol, dibynadwy ac annibynnol. Felly, roeddwn wrth fy modd i gefnogi a chyfrannu at Symposiwm Ansawdd Archwilio Cymru eleni, a arddangosodd ein hymrwymiad i ansawdd archwilio.

## Effeithiolrwydd y trefniadau

Credaf fod gennym drefniadau sydd wedi hen ennill eu plwyf i fonitro ansawdd ein gwaith archwilio, a'n bod yn gweithio'n barhaus i gryfhau'r trefniadau hynny. Rydym wedi llwyddo i gytuno ar gontract pedair blynedd newydd ar gyfer monitro ansawdd archwilio'n allanol gydag Adran Sicrhau Ansawdd (QAD) Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr (ICAEW). Mae'n wych parhau i weithio gyda QAD i roi sicrwydd annibynnol angenrheidiol inni ynghylch ansawdd ein gwaith archwilio. Rwy'n falch o weld yr estyniad ar y rhaglen adolygu i gwmpasu ein gwaith archwilio perfformiad yn dilyn y rhaglen beilot lwyddiannus y llynedd.

Yn ystod y flwyddyn, rwyf wedi arsylwi ar weithredu dulliau archwilio newydd a fydd yn gwella trylwyredd ac effeithlonrwydd ein gwaith archwilio. Ategwyd y dulliau newydd hyn gan raglen o hyfforddiant a chanllawiau gweithredu technegol. Rwyf hefyd wedi nodi cynnydd sy'n cael ei wneud o ran gweithredu ein system rheoli ansawdd a mentrau newydd i greu cynllun datblygu ansawdd archwilio. Edrychaf ymlaen at fonitro'r datblygiadau hyn trwy'r Pwyllgor Ansawdd Archwilio.

## Digonolrwydd adnoddau

Amlinellais yn ein Hadroddiad Ansawdd Archwilio 2022, fy mod yn falch o weld y cynnydd da iawn a wnaed ar draws ystod o fentrau pwysig oherwydd ein buddsoddiad mewn ansawdd archwilio a'r ymgyrch recriwtio i fynd i'r afael â diffygion hanesyddol mewn adnoddau.

Rwy'n hyderus y bydd y camau diweddar i ailstrwythuro'r swyddogaeth cymorth archwilio cyfrifon yn cryfhau ymhellach ei gallu i gydweithio fel tîm (er fy mod yn nodi ei bod yn parhau i adfer o'r diffyg buddsoddiad yn y swyddogaeth) ac i feithrin perthynas weithio agos â nifer o randdeiliaid mewnol ac allanol.

Mae'r disgwyliadau ynghylch ansawdd archwilio'n parhau i dyfu. Rhaid i ni felly gadw ein ffocws ar ansawdd archwilio, ar ymateb i ddisgwyliadau rheoleiddio cynyddol ac ar sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i barhau i wireddu ein huchelgeisiau i gyflawni gwaith archwilio o ansawdd da. Felly, byddaf yn parhau i fonitro digonolrwydd ein trefniadau esblygol a'r adnoddau a neilltuir i gefnogi'r trefniadau hynny, ac i adrodd ar hynny fel y bo angen.



---

**Kevin Thomas**

Cyfarwyddwr Gweithredol  
Gwasanaethau Corfforaethol

# Rhan 1: Trosolwg o Archwilio Cymru

## Ein rôl a'n diben

- 1 Archwilydd Cyffredinol Cymru yw archwilydd allanol statudol y rhan fwyaf o'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Yr Archwilydd Cyffredinol sy'n gyfrifol am archwilio'r rhan fwyaf o'r arian cyhoeddus a gaiff ei wario yng Nghymru, gan gynnwys yr arian y pleidleisir arno'n flynyddol gan y Senedd. Mae elfennau sylweddol o'r cyllid hwn yn cael eu trosglwyddo gan Lywodraeth Cymru i'r GIG a llywodraeth leol yng Nghymru.
- 2 Mae Swyddfa Archwilio Cymru, sydd wedi'i gyfansoddi fel bwrdd statudol, yn gyfrifol am ddarparu adnoddau, megis staff, i arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, ac am fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.
- 3 Mae Sicrhau, Esbonio, Ysbrydoli: Ein Strategaeth 2022-27 yn disgrifio'r llwybr yr ydym yn ei ddilyn tuag at gyrraedd ein potensial llawn fel sbardun ar gyfer newid a gwelliant wrth wraidd gwasanaethau cyhoeddus ac atebolrwydd democrataidd yng Nghymru. Trwy ein strategaeth rydym yn canolbwyntio ar dri maes allweddol:
  - Rhaglen archwilio strategol, dynamig, o ansawdd uchel
  - Dull wedi'i dargedu ac effeithiol o gyfathrebu a dylanwadu
  - Diwylliant a model gweithredu sy'n caniatáu i ni ffynnu yn awr ac yn y dyfodol

## Yr hyn yr ydym yn ei wneud

- 4 Ar ran pobl Cymru, rydym yn archwilio gwariant cyhoeddus ac yn adnabod ffyrdd o wella gwasanaethau cyhoeddus. Mae ein gwaith yn cynorthwyo'r Senedd, cynrychiolwyr lleol etholedig a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu yn y cyrff a archwilir gennym i graffu'n effeithiol ar arian cyhoeddus.
- 5 Mae swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnwys archwilio cyfrifon a gwneud gwaith archwilio perfformiad lleol mewn ystod eang o gyrff cyhoeddus, ochr yn ochr â chynnal rhaglen o archwiliadau ac astudiaethau gwerth-am-arian cenedlaethol. Gellir arfer y swyddogaethau hyn ar y cyd os oes angen, ar draws gwahanol fathau o gyrff, i archwilio gwariant cyhoeddus ni waeth pwy sy'n darparu'r gwasanaethau.
- 6 Gyda'n gilydd, fel Archwilio Cymru, rydym yn archwilio tua £26 biliwn o incwm a gwariant, sydd dros chwarter Cynnyrch Domestig Gros Cymru. Yn gynyddol, rydym yn ystyried stiwardiaeth adnoddau dynol a naturiol ochr yn ochr â'n hystyriaeth i adnoddau ariannol a'r ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn rhoi cyfrif am eu defnyddio.
- 7 Rydym hefyd yn adnabod arfer da ar draws holl ehangder ein gwaith archwilio ac yn lledaenu hwn trwy ystod o gyfryngau, gan gynnwys blogiau, podlediadau a seminarau a gweminarau dysgu ar y cyd.
- 8 Rydym yn gwneud ein gwaith yn unol â Chod Ymarfer Archwilio'r Archwilydd Cyffredinol. Mae'r Cod yn rhagnodi'r ffordd y dylai'r swyddogaeth archwilio a

swyddogaethau penodol eraill gael eu cyflawni ac yn ymgorffori'r hyn y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ei ystyried yn arfer proffesiynol gorau.

- 9 Rydym hefyd yn cydweithio'n agos gydag asiantaethau archwilio eraill y DU a chyda'r prif gyrff adolygu allanol eraill yng Nghymru i wella effaith gyfunol ein gwaith.

### Arddangosyn 1: ein gwaith craidd

| Gwaith craidd                                                                       |                                                                                     |                                                                                     |                                                                                      |
|-------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------|
|    |    |    |    |
| Cynnal gwaith archwilio mewn dros <b>800</b> o gyrff cyhoeddus                      | Cyflawni rhaglen o archwiliadau ac astudiaethau <b>gwerth am arian</b>              | Ardystio cynlluniau grant sy'n werth oddeutu <b>£1.5 biliwn</b>                     | Cymeradwyo tua <b>£1.8 biliwn</b> o daliadau allan o Gronfa Gyfunol Cymru bob mis    |
|  |  |  |  |
| <b>Cefnogi gwaith craffu effeithiol</b> gan gynnwys gwaith pwyllgorau'r Senedd      | Rhannu'r <b>arfer da</b> a welwn ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru              | Hwyluso'r gwaith o <b>ganfod twyll a gwall</b> drwy'r Fenter Twyll Genedlaethol     | Cyflawni rôl <b>sylwedydd</b> ar amrywiaeth o weithgorau polisi allweddol            |


Ffynhonnell: Cynllun Blynyddol Archwilio Cymru 2023-24

# Rhan 2: Cyflawni ansawdd archwilio

## Sut yr ydym yn cyflawni ansawdd archwilio

- 10 Mae disgwyliadau ynghylch ansawdd archwilio'n parhau i gynyddu. Yn ôl yr awdur a'r athronydd Fictoraidd, John Ruskin, 'Nid damwain yw ansawdd byth. Mae bob amser yn digwydd o ganlyniad i ymdrech ddeallus.'. Mae hyn yr un mor wir am ansawdd archwilio. I sicrhau archwilio o ansawdd da mae angen timau ymroddedig sy'n cymryd cyfrifoldeb personol am gyflawni ansawdd archwilio ac sy'n cael eu cefnogi yn y ffordd iawn.
- 11 Mae safonau rheoli ansawdd rhyngwladol sydd newydd gael eu cyflwyno<sup>7</sup> yn rhoi pwyslais mawr ar integreiddio ansawdd archwilio yn ein diwylliant, ein strategaeth, ein gweithgareddau gweithredol ac ym mhob proses fusnes.
- 12 Rhaid i ni greu amgylchedd sy'n galluogi ac yn cynorthwyo timau i gyflawni archwiliadau o ansawdd da. Felly, mae angen i ni fod yn rhagweithiol wrth ymateb i newidiadau yn natur ac amgylchiadau Archwilio Cymru a'n harchwiliadau.
- 13 Rydym yn defnyddio model tair llinell sicrwydd i ddangos sut yr ydym yn cyflawni hyn.

### Arddangosyn 2: ein model sicrwydd tair llinell




<sup>7</sup> Safon Ryngwladol ar Reoli Ansawdd (Y DU) 1- rheoli ansawdd ar gyfer cwmnïau sy'n cyflawni archwiliadau neu adolygiadau o ddatganiadau ariannol, neu ymrwymadau eraill sy'n ymwneud â sicrwydd neu wasanaethau cysylltiedig.

## Ail linell o sicrwydd: Trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd archwilio



Platform  
Archwilio



Cyfarwyddyd



Dysgu a  
Datblygu



Cymorth  
technegol



Moeseg



Diwylliant



Arweinyddiaeth


## Trydedd linell o sicrwydd: Sicrwydd annibynnol



EQCRs



Adolygiadau oer




Adolygiad  
cymheiriaid



Monitro  
allanol



Adolygiadau thema



Dadansoddiad o  
wraidd y problem



Pwyllgor Ansawdd  
Archwilio

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

- 14 Y **llinell sicrwydd gyntaf** yw ein staff a'n rheolwyr sy'n gyfrifol yn unigol ac ar y cyd am gyrraedd y safonau ansawdd archwilio yr ydym yn dyheu amdanynt. Mae angen iddynt fod â'r wybodaeth, y sgiliau a'r cymorth angenrheidiol i wneud hyn.
- 15 Yr **ail linell sicrwydd** yw'r polisïau, yr offer, y dysgu a datblygu, y canllawiau a'r arweinyddiaeth a ddarparwn i'n staff i'w cynorthwyo i gyrraedd y safonau hynny o ran ansawdd archwilio.
- 16 Y **drydedd llinell sicrwydd** yw'r gweithgareddau hynny sy'n rhoi sicrwydd annibynnol dros effeithiolrwydd y ddwy linell sicrwydd gyntaf ac yn helpu i adnabod cyfleoedd i wella'n barhaus.

## Y llinell sicrwydd gyntaf: ein pobl

- 17 Mae bod â'r staff cywir sydd â digon o amser i wneud gwaith archwilio'n hanfodol i gyflawni ansawdd archwilio. Mae'r un mor hanfodol bod y staff hynny'n mabwysiadu dull ymholgar a sgeptigol ac yn derbyn cyfrifoldeb personol am ansawdd eu gwaith eu hunain.
- 18 Rydym yn gweithredu prosesau recriwtio wedi'u diffinio'n dda i sicrhau bod gan ein holl staff y cymhwysedd a'r galluoedd angenrheidiol i wneud eu gwaith. Ar gyfer gwaith archwilio cyfrifon, rydym wedi sefydlu llwybrau mynediad proffesiynol gydag ymgeiswyr newydd yn ymuno naill ai fel prentisiaid AAT neu hyfforddeion ICAEW. Ar gyfer gwaith archwilio perfformiad, mae gennym ddulliau strwythuredig ar gyfer asesu mewnol ac allanol i sicrhau bod gan staff y sgiliau a'r profiad archwilio perfformiad gofynnol.

*"Rwy'n tynnu at ddiwedd fy mhrentisiaeth AAT ac wedi sicrhau rôl fel Hyfforddai Archwilio ar ôl cwblhau fy Niploma Lefel 4 mewn Cyfrifyddu Proffesiynol. Eleni, cefais wobwr Prentis y Flwyddyn yng Ngwobrau Prentisiaeth Gogledd Cymru 2023. Mae'r cymorth gan fy nghydweithwyr wedi bod yn hanfodol i'm llwyddiant. Mae'r cynllun prentisiaeth y mae Archwilio Cymru'n ei gynnis wedi fy ngalluogi i gael profiad o weithio ar bob cam mewn gwaith archwilio gyda chyrff y sector cyhoeddus, gan hefyd ennill cymhwyster cyfrifyddiaeth."*

**Eleri Davies**  
Prentis

- 19 Un o'r heriau yr ydym yn parhau i'w hwynebu - ynghyd â sefydliadau gwasanaethau proffesiynol yn gyffredinol - yw mwy o alw yn y farchnad am staff digon cymwys a phrofiadol ar bob gradd. Rydym yn datblygu ein cynlluniau gweithlu i ymateb i'r pwysau allanol hyn yn y farchnad.
- 20 Ar gyfer yr holl waith archwilio cyfrifon, rydym yn neilltuo cyfrifoldeb i arweinydd ymrwymiad sy'n gyfrifol am gyfeiriad cyffredinol y gwaith hwnnw ac am sicrhau bod

y tîm archwilio'n meddu ar yr wybodaeth, y sgiliau a'r profiad angenrheidiol i wneud y gwaith. Mae'r arweinydd ymrwymo hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod aelodau'r tîm archwilio'n cael yr oruchwyliaeth gywir a'r cymorth cywir i wneud eu gwaith. Mewn gwaith archwilio perfformiad, mae'r cyfrifoldebau hyn fel arfer yn cael eu cyflawni gan y sawl a neilltuwyd i rôl yr ail adolygydd, cyfarwyddwr neu reolwr gyda goruchwyliaeth cyfarwyddwr.

- 21 Bydd adegau lle mae agweddau ar ein gwaith yn cynnwys meysydd arbenigol iawn. Yn yr achosion hyn, rydym yn ymgysylltu ag arbenigwyr allanol digon cymwys i roi cymorth ychwanegol ar gyfer ein gwaith. Mewn gwaith archwilio cyfrifon mae hyn yn cynnwys adolygu tybiaethau actiwaraid ar gyfer pensiynau a phrisiadau eiddo. Rydym yn bwriadu darparu hyfforddiant i grwpiau o staff i ddatblygu sgiliau mwy arbenigol a mwy o arbenigedd yn y meysydd mwy cymhleth hyn.
- 22 Mewn gwaith archwilio perfformiad, rydym yn ymgysylltu'n aml ag arbenigwyr a sefydliadau sydd ag arbenigedd perthnasol i oleuo ein gwaith. Mae enghreifftiau diweddar o hyn yn cynnwys ymgysylltu ag arbenigwyr seibergadernid i gefnogi ein gwaith ar seibergadernid yn y sector cyhoeddus; ac ymgysylltu â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, gan gynnwys defnyddio ei ganllawiau, i helpu i lunio ein hadolygiad o'r dull o asesu effeithiau ar gydraddoldeb ar draws cyrff cyhoeddus yng Nghymru.

## Yr ail linell sicrwydd: trefniadau ar gyfer cyflawni ansawdd archwilio

### Arweinyddiaeth a diwylliant

- 23 Maes ffocws allweddol o fewn ein strategaeth yw cryfhau ein galluedd arwain ar draws y sefydliad. Rydym wedi datblygu rhaglen Datblygu Rheolwyr Pobl bwrpasol sy'n ceisio helpu rheolwyr i feithrin ymddiriedaeth o fewn eu timau. Mae'r rhaglen wedi'i bwriadu i helpu rheolwyr pobl i hyfforddi, cefnogi, annog, datblygu, gwrandao, rheoli perfformiad, darparu adborth, a chael sgysiau heriol. Mae hon yn elfen bwysig ar gyfer gwireddu ein huchelgeisiau i gyflawni'r ansawdd da a ddymunir.
- 24 Mae Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio'n atebol i'r Archwilydd Cyffredinol am ansawdd ein holl waith archwilio, gan gynnwys yr hyn a wneir gan staff Archwilio Cymru a chontractwyr allanol. Mae hi'n sicrhau bod ansawdd archwilio'n flaenllaw yn yr hyn a wnawn trwy:
  - osod safonau personol ar gyfer ansawdd archwilio ac arwain drwy esiampl;
  - ymgorffori ansawdd archwilio yn ein strategaethau, diwylliant, gwerthoedd, cod ymddygiad a methodolegau archwilio;
  - hyrwyddo pwysigrwydd ansawdd archwilio trwy ein system rheoli perfformiad;

- darparu negeseuon rheolaidd, agored a chlir i staff am bwysigrwydd ansawdd archwilio; a
  - sefydlu llinellau cyfrifoldeb clir ar gyfer ansawdd archwilio.
- 25 Cynorthwyr Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio gan gyfarwyddwyr archwilio a'r tîm arwain ehangach i gyflawni'r cyfrifoldebau hyn a sicrhau ansawdd archwilio.
- 26 Yn ganolog i lwyddiant ein strategaeth mae ffocws parhaus ar sicrhau ansawdd ein gwaith archwilio. Mae ein diwylliant yn un sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac i gynorthwyo ein staff i gyflawni'r gwelliant hwnnw, trwy ddysgu a datblygu a'n trefniadau rheoli perfformiad. Rhaid i'n harweinyddiaeth greu'r amodau i staff ffynnu ac ymgysylltu.
- 27 Yn ystod y flwyddyn, fe gynhaliom ni symposiwm undydd lle gwnaethom drefnu cyfres o weithdai a gwahodd siaradwyr allanol i ganolbwyntio ar bwysigrwydd ansawdd archwilio a'r effaith y mae ein gwaith archwilio'n ei chael ar y sector cyhoeddus.

*"Roedd y symposiwm ansawdd yn teimlo fel ailddatganiad cadarnhaol o'n cyfraniad pwysig i'r sector cyhoeddus a diwrnod i ganolbwyntio ar sut rydym yn sicrhau bod y cyfraniad cystal ag y gall fod. Roedd yr areithiwr cyweirnod, Gareth Davies, Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn un o'r uchafbwyntiau i mi. Bydd ei fyfyrddodau ar ansawdd a sut y mae hynny'n seiliedig ar ymddiriedaeth yn aros gyda mi am amser hir. Roedd ei bwyntiau am bwysigrwydd amseroldeb mewn gwaith archwilio a phroffesiynoldeb yn ein holl ryngweithio â chyrff allanol hefyd yn taro tant gyda mi. Yn ddiweddarach yn y dydd, darparodd panel o randdeiliaid o gyrff a archwilir adborth cadarnhaol ar ein cyfraniad defnyddiol i'w hymdrechion gwella hwy eu hunain, gan ddisgrifio Archwilio Cymru fel rhan allweddol o'r fframwaith moesegol yng Nghymru a 'gogledd cywir diysgog'. Gadewais y symposiwm yn teimlo'n gadarnhaol bod Archwilio Cymru'n cymryd camau i sicrhau bod ansawdd yn ganolog i'n holl waith."*

**Sian Davies**

Uwch Archwilydd

## Moeseg

- 28 Trwy God Ymarfer Archwilio'r Archwilydd Cyffredinol, rydym yn mabwysiadu ac yn cymhwyso'r Safon Foesegol a gyhoeddwyd gan y Cyngor Adrodd Ariannol i'n holl waith.
- 29 Un nodwedd allweddol ar archwilwyr yw'r gofyniad ein bod yn annibynnol ar y rhai yr ydym yn eu harchwilio. Mae hyn yn cynnwys nid dim ond wrth gyflawni gwaith archwilio ond annibyniaeth penodiadau hefyd. Mae'r annibyniaeth hon yn ein

cynorthwyo i arfer sgeptigaeth broffesiynol ac yn ein galluogi i ddod i gasgliadau mewn modd gwrthrychol heb i ddylanwadau a allai beryglu ein crebwyll proffesiynol effeithio arnom.

- 30 Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol statudol y rhan fwyaf o'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r swyddfa'n annibynnol ar y llywodraeth ac mae penodiadau'n cael eu gwneud gan y Brenin neu'r Frenhines sy'n teyrnasu ar enwebiad y Senedd. Caiff Archwilwyr Cyffredinol eu penodi am gyfnod penodol o wyth mlynedd a dim ond gan y Brenin neu'r Frenhines y gallant gael eu diswyddo a hynny o dan amgylchiadau cyfyngedig iawn. Mae cydnabyddiaeth ariannol yr Archwilydd Cyffredinol yn dâl a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru, sy'n gwarchod annibyniaeth y swyddfa.
- 31 Mae ein Cod Ymarfer Archwilio a'n Cod Ymddygiad staff yn atgyfnerthu pwysigrwydd annibyniaeth a gwrthrychedd i'n gwaith. Mae'n ofynnol i'n holl staff wneud datganiad annibyniaeth blynyddol lle maent yn nodi unrhyw gysylltiadau â'r cyrff yr ydym yn eu harchwilio a allai amharu ar eu hannibyniaeth. Pan nodir unrhyw rwystrau o'r fath, cymerir camau priodol i liniaru gwrthdaro buddiannau posibl i lefel dderbyniol. Gall camau o'r fath gynnwys atal staff rhag gweithio ar archwiliadau penodol neu gyfyngu ar gwmpas ymwneud unigolyn ag archwiliad penodol.
- 32 Mae Cod Ymddygiad ar wahân yn bodoli ar gyfer aelodau'r Bwrdd y mae'n ofynnol iddynt ddatgan unrhyw fuddiannau sydd ganddynt yn unrhyw fater ac efallai y bydd gofyn iddynt adael cyfarfodydd lle mae'r mater hwnnw'n cael ei ystyried.
- 33 Yn ogystal â gwaith lle caiff yr Archwilydd Cyffredinol ei benodi drwy statud megis archwilio cyfrifon ac archwiliadau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, caiff wneud rhywfaint o waith drwy gytundeb o bryd i'w gilydd. Mae gennym bolisiâu a gweithdrefnau sefydledig i sicrhau bod gwaith anstatudol yn cael ei wneud dim ond pan fydd gennym y capasiti a'r gallu i wneud y gwaith hwnnw a lle na fyddai derbyn penodiad o'r fath yn amharu ar annibyniaeth statudol yr Archwilydd Cyffredinol.
- 34 Lle'r ydym yn hanesyddol wedi prynu gwasanaeth cwmnïau preifat i wneud gwaith ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, bu'n ofynnol iddynt fod â threfniadau tebyg ar waith i fonitro a rheoli unrhyw fygythiadau posibl i annibyniaeth yr archwiliadau y maent yn eu gwneud. Mae gennym weithdrefnau i fonitro effeithiolrwydd y trefniadau hynny.
- 35 Mae gennym Bolisi Cylchdroi sy'n rheoli pa mor hir y gall uwch aelodau o staff fod yn rhan o gyfarwyddo unrhyw archwiliad penodol. Mae'r polisi'n ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng natur annewisol gwaith yr Archwilydd Cyffredinol gan mwyaf, maint cymharol fach Archwilio Cymru a gofynion y Safon Foesegol.
- 36 Mae staff yn cael hyfforddiant i atgyfnerthu ymwybyddiaeth o'n polisiâu a'n gweithdrefnau annibyniaeth.

## Canllawiau ac offer archwilio

- 37 Un o'r elfennau pwysig o gyflawni ansawdd archwilio yw sefydlu dulliau safonedig o gyflawni ein gwaith.
- 38 Rydym yn gwneud ein gwaith archwilio perfformiad gan ddefnyddio ein Llawlyfr Cyflawni Gwaith Archwilio Perfformiad (PADM). Rydym wedi diweddarau hwn i adlewyrchu'r safonau archwilio perfformiad a gyhoeddwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI). Mae ein PADM newydd, a gyflwynwyd ym mis Ionawr 2023, yn rhoi mwy o bwyslais ar ddefnyddio meini prawf archwilio. Mae'r rhain yn cynrychioli'r safonau perfformiad rhesymol a chyraeddadwy a ddefnyddir gennym i asesu darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gweithgareddau corff a archwilir.

*"Ar hyn o bryd mae'r tîm astudiaethau cenedlaethol yn cynnal adolygiad o gynnydd Llywodraeth Cymru o ran cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy. Mae'r tîm wedi datblygu meini prawf archwilio i'n helpu i werthuso cynnydd Llywodraeth Cymru. Mae rhannu'r meini prawf hynny gyda Llywodraeth Cymru yn ystod cam sefydlu'r prosiect wedi arwain at gyd-ddealltwriaeth well am yr wybodaeth y mae ei hangen ar y tîm i gyflawni'r adolygiad yn llwyddiannus."*

**Mark Jeffs**

Rheolwr Archwilio

- 39 Rydym yn gwneud gwaith - yn seiliedig ar ymchwil ryngwladol ac arfer da - i wella effaith archwilio ein gwaith. Mae cam cyntaf y gwaith hwn wedi rhoi cymorth i ddatblygu ein rhaglen o waith archwilio strategol a gwelliannau i'r modd yr ydym yn dysgu o brosiectau, gan gynnwys treialu ap mewnol i wneud y broses yn fwy effeithiol. Mae gwaith cysylltiedig arall yn cynnwys gwella'r ffordd yr ydym yn ysgrifennu ein hargymhellion archwilio a sut yr ydym yn gwneud gwaith dilynol mewn perthynas ag argymhellion archwilio blaenorol.
- 40 Mae dull archwilio cyfrifon newydd yn diweddarau'r Llawlyfr Cyflawni Gwaith Archwilio Ariannol presennol ac fe'i rhoddwyd ar waith eleni mewn ymateb i'r Safon Ryngwladol ddiwygiedig ar Archwilio 315 (y DU).<sup>8</sup> Roedd hyn yn newid sylfaenol i'n dull gyda'r safon ddiwygiedig yn amcanu at ysgogi asesiad risg mwy cyson, gwell ansawdd ac effeithlonrwydd archwilio, a mwy o bwyslais ar sgeptigaeth broffesiynol. Mae ein dull, a ddatblygwyd mewn partneriaeth gyda Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon, yn rhoi mwy o bwyslais ar risg archwilio gan sicrhau

<sup>8</sup> ISA (DU) 315 (diwygiwyd Gorffennaf 2020) Nodi ac asesu risgiau camddatganiad materol

bod timau'n cwblhau profion wedi'u targedu. Cefnogwyd y broses o gyflwyno'r dull newydd gan weithgareddau dysgu a datblygu manwl i'r holl staff sy'n cyflawni archwiliadau o gyfrifon, cymorth parhaus i roi'r dull newydd ar waith ac ymgorffori canllawiau ar y dull mewn ffeiliau archwilio.

*"Mae'r dull newydd wedi darparu fframwaith sydd wedi'i strwythuro'n dda ac sydd â ffocws pendant i'w ddefnyddio i gynllunio a chyflawni ein gwaith archwilio sy'n seiliedig ar risg. Roedd y newidiadau'n golygu edrych yn fwy manwl ar gofnodion cyfrifyddu, systemau TG a llifoedd gwybodaeth y cyrff a archwilir. Roedd hyn yn gofyn am fwy o'm crebwyll a sgeptigaeth fel archwilydd i sicrhau bod cynllun profi priodol yn cael ei ddylunio i fynd i'r afael â'r risgiau allweddol a nodwyd. Fe'i cefais yn gryn her, yn sicr ar y dechrau, ac yn werth chweil. Bu'n rhaid i'r tîm archwilio a minnau fod yn feiddgar a dysgu'n gyflym bod angen rhoi'r gorau i rai dulliau archwilio a oedd yn perthyn i'r gorffennol, ac a oedd weithiau'n rhai hirsefydlog.*

*Rwy'n teimlo bod yr holl newidiadau wedi helpu ac y byddant yn helpu i gryfhau ein hansawdd archwilio. Rydym ni i gyd yn dysgu, mae'n annhebygol o fod yn berffaith eleni, ac yn ddi-os byddwn yn gwneud gwelliannau i drefnu fersiynau o'r dull yn y dyfodol. Mae fy mhrofiad i'n sicr wedi cael ei helpu'n fawr gan yr ymgysylltiad rheolaidd â llawer o gydweithwyr, i rannu ein materion a'n profiadau, a herio ein gilydd mewn ffordd sy'n ysgogi meddwl."*

### Steve Stark

Arweinydd Archwilio

- 41 Rydym hefyd yn cyhoeddi cyfarwyddiadau sy'n nodi canllawiau ynghylch gwneud gwaith ardystio grantiau.
- 42 Trwy ein methodolegau rydym yn pwysleisio pwysigrwydd ansawdd archwilio a rôl yr holl aelodau o staff o ran cyrraedd y lefelau ansawdd archwilio disgwylidig. Mae'r methodolegau hyn wedi'u bwriadu i sefydlu llinell sylfaen ar gyfer cymhwyso dyfarniadau a gweithdrefnau cyson i'n holl waith archwilio ac fe'u hategir gan ddogfennaeth a systemau rheoli cofnodion (gweler **platfformau archwilio**), sydd eto'n hybu cysondeb ac ansawdd archwilio.
- 43 Rydym yn parhau i ddatblygu ac ymgorffori ystod o offer dadansoddi data ac offer cyfrifiadurol eraill yn ein gwaith archwilio ariannol i'n galluogi i holi ac asesu risg symiau mawr o ddata trafodaethol mewn modd effeithiol er mwyn gwella ansawdd archwilio.
- 44 Mewn gwaith archwilio perfformiad, rydym yn parhau i ddefnyddio offer i wneud ein proses archwilio'n fwy effeithlon gan gynnwys offer chwilio trwy ddogfennau ac offer casglu tystiolaeth.

- 45 Fe gyhoeddodd ni nifer o offer data allanol gan gynnwys Cyllid y GIG, Tlodi yng Nghymru, ac amseroedd aros y GIG i gyflwyno ein canfyddiadau archwilio mewn fformatau sy'n fwy hygyrch yn weledol a chynyddu ymgysylltiad â'n gwaith.

## Cymorth technegol

- 46 Caiff ein holl archwilywyr eu cefnogi gan ein tîm Adnoddau Dynol a'n tîm Datblygu a Chanllawiau Archwilio pwrpasol, sy'n rhoi canllawiau a chynghor arbenigol ynghylch ystod o faterion technegol a phroffesiynol ac yn cefnogi gweithgarwch dysgu a datblygu ein timau archwilio.
- 47 Rydym wedi cryfhau ein cymorth technegol trwy sefydlu swyddogaeth ymchwil a datblygu benodol. Trwy nodi darlun cliriach o'r gorwel yn y tymor canolig a dwyn ynghyd wahanol rannau o'n rhaglen waith ar y cyfan, ein nod yw gwella effaith ein gwaith archwilio.
- 48 Rydym yn ymdrechu i gynnal a meithrin perthnasoedd gweithio a rhwydweithiau agos gyda nifer o randdeiliaid mewnol ac allanol, gan gynnwys sefydliadau proffesiynol ac asiantaethau archwilio eraill yn y sector cyhoeddus. Ein nod yw cynyddu i'r eithaf y cyfleoedd i rannu gwersi a gwybodaeth i wella'n barhaus a sicrhau ein bod yn dylanwadu ar benderfyniadau ehangach a allai effeithio ar archwilio'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Rydym wedi gweithio gydag asiantaethau archwilio cyhoeddus eraill i ddatblygu ein methodolegau, gan weithio ar y cyd i rannu canllawiau a gwersi o'n profiadau o wreiddio safonau proffesiynol newydd a diwygiedig. Rydym hefyd wedi cysylltu â sefydliadau proffesiynol i ddeall y newidiadau allweddol ac effaith newidiadau sydd ar ddod i ofynion o ran datblygiad proffesiynol parhaus.

## Platfformau archwilio

- 49 Ar hyn o bryd rydym yn defnyddio system sy'n seiliedig ar SharePoint ar gyfer ein holl waith archwilio cyfrifon, grantiau a pherfformiad. Fe wnaethom gyflwyno ein platfform SharePoint archwilio perfformiad yn 2019 ac mae pob aelod newydd o'r tîm yn cael rhaglen sefydlu lawn ar ddefnyddio SharePoint. Rydym bellach yn datblygu llif gwaith a fydd yn integreiddio ein proses archwilio newydd sy'n seiliedig ar INTOSAI fel rhan o'r platfform.
- 50 Yn dilyn ymarfer peilot helaeth, rydym bellach wedi rhoi SharePoint ar waith yn llawn ar gyfer yr holl waith archwilio cyfrifon a grantiau. Mae ein platfform newydd yn gwella cysondeb dulliau archwilio ac yn darparu gwiriadau ansawdd sy'n gynwysedig ynddo. Mae ein platfform newydd yn rhoi'r gallu i ni fabwysiadu arferion gorau a datblygiadau proffesiynol newydd yn ein methodolegau archwilio ynawr ac yn y dyfodol.

*"Mae'r platfform SharePoint ar gyfer Archwilio Cyfrifon yn rhoi hyblygrwydd ac addasrwydd i ni yn ein gwaith. Mae'r platfform yn ein galluogi i addasu ac ychwanegu profion yn hawdd i adlewyrchu amgylchiadau unigol y corff a archwilir, ac i ymateb i risgiau archwilio a adnabuwyd. Mae hefyd yn helpu i hwyluso ein model o weithio trwy drefniant hybrid, trwy alluogi sawl aelod o'r tîm i weithio ar un maes ar yr un pryd, yn ogystal â galluogi adolygwyr i gael mynediad at bob rhan o'r ffeil mewn amser real."*

### **Anwen Worthy**

Arweinydd Archwilio

- 51 Gan ddefnyddio Microsoft Office 365, rydym wedi creu offeryn sydd wedi bod yn hanfodol i gyflawni archwiliadau o gynghorau cymuned. Defnyddir yr offeryn ar gyfer rhoi data i mewn, awtomeiddio profion archwilio, casglu tystiolaeth, cofnodi gweithdrefnau archwilio ac ardystio. Mae adroddiad Power BI rhyngweithiol sy'n gysylltiedig â'r offeryn yn darparu gwybodaeth reoli fyw am statws yr archwiliadau.

## **Dysgu a datblygu**

- 52 Rydym yn parhau i fuddsoddi'n helaeth mewn dysgu a datblygu i wella gwybodaeth a sgiliau proffesiynol ein staff. Rhoddir lwfans dangosol o ddeg diwrnod y flwyddyn i staff i gefnogi eu dysgu a'u datblygiad proffesiynol. Mae hyn yn cynnwys rhaglen hyfforddi wedi'i theilwra ar gyfer ein hyfforddeion a'n prentisiaid sydd wedi'i bwriadu i helaethu eu datblygiad wrth iddynt weithio tuag at ennill eu cymwysterau proffesiynol.
- 53 Mae dwy elfen i'n rhaglenni dysgu a datblygu blynyddol:
- elfennau gorfodol – mae'r rhain wedi'u bwriadu i sicrhau bod yr holl staff yn cael hyfforddiant mewn meysydd sgiliau craidd a thechnegol newydd ac allweddol sy'n berthnasol i'w rolau; ac
  - elfennau 'ar alw' – caiff y rhain eu hadnabod o adolygiadau datblygu perfformiad unigolion gyda'u rheolwyr llinell a'u bwriad yw cefnogi datblygiad personol unigolyn.
- Gall staff ddiwallu eu hanghenion dysgu a datblygu trwy'r model 70-20-10. Mae hyn yn golygu dysgu 70% trwy ddysgu trwy brofiad a thrwy wneud, 20% oddi wrth eraill trwy arsylwi, hyfforddi a mentora a 10% trwy hyfforddiant ffurfiol fel cyrsiau, darllen a dysgu ar-lein.
- 54 Rydym yn ymrwymedig i ddysgu parhaus ac rydym yn defnyddio'r canlyniadau a'r sylwadau o'n harolwg pobl i lywio ein dull o ddysgu a datblygu.

- 55 Rhennir canlyniadau ein prosesau monitro ansawdd (gweler **y Drydedd linell sicrwydd**) gyda staff ac mae ymatebion i unrhyw faterion a adnabwyd yn cael eu cynnwys fel rhan o'n rhaglenni dysgu a datblygu yn ôl yr angen.
- 56 Mae rhan fawr o'n rhaglenni dysgu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi canolbwyntio ar ddiweddariadau i'n methodolegau archwilio cyfrifon ac archwilio perfformiad, a oedd yn cynnwys cydweithio gydag Audit Scotland i ddarparu hyfforddiant ar sgeptigaeth broffesiynol i gefnogi ein gwaith archwilio perfformiad.
- 57 Mae ein prosesau datblygiad personol wedi cael eu hachredu fel system datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) briodol ar gyfer ein staff gan Gymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig (ACCA), Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a'r Gymdeithas Technegwyr Cyfrifyddu (AAT).
- 58 Rydym yn asesu effeithiolrwydd ein buddsoddiad mewn datblygiad proffesiynol. Er enghraifft, rydym yn disgwyl i reolwyr llinell drafod effeithiolrwydd unrhyw weithgareddau dysgu a datblygu a sut y'i cymhwyswyd yn ymarferol.
- 59 Mae gennym hefyd broses dysgu-ar-ôl-prosiectau ar gyfer prosiectau mawr (gan gynnwys archwiliadau) sy'n ceisio atgyfnerthu ein nod i fod yn sefydliad sy'n dysgu ac yn rhannu ac sy'n ymdrechu i wella'n barhaus. Mae'r broses dysgu-ar-ôl-prosiectau hon yn canolbwyntio ar ystyried beth allwn ni ei ddysgu o'r ffordd y cyflawnwyd y prosiect ac mae'n hybu'r arfer o ystyried:
- beth weithiodd yn dda;
  - beth allai fod wedi cael ei wella;
  - sut oedd yn teimlo;
  - tystiolaeth o effaith; a
  - gwersi ar gyfer y dyfodol.
- 60 Rydym yn datblygu ap dysgu-o-brosiectau mewnol i gofnodi gwersi dros oes prosiect. Bydd timau prosiect yn defnyddio'r offeryn i nodi cryfderau, meysydd i'w gwella a rhannu gwersi. Bydd yr offeryn yn ei gwneud yn bosibl i bwyntiau gweithredu ar gyfer dysgu gael eu cofnodi'n ganolog, eu tracio a'u dadansoddi ar gyfer themâu. Bydd hyn yn ein helpu i nodi anghenion dysgu a datblygu'n fwy effeithiol.

## **Y drydedd linell sicrwydd: sicrwydd annibynnol**

### **Monitro Allanol**

- 61 Ar hyn o bryd rydym yn ein trydydd contract ar gyfer monitro ansawdd yn allanol gydag Adran Sicrhau Ansawdd (QAD) Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr (ICAEW). QAD yw'r rheoleiddiwr mwyaf ar gyfer cwmnïau archwilio yn y DU a'r rheoleiddiwr archwilio llywodraeth leol yn Lloegr.
- 62 Yn yr adran nesaf – Adolygiadau Oer – rydym yn crynhoi'r gwaith a wnaed ar ein cyfer gan QAD yn y flwyddyn ddiwethaf.

## Adolygiadau oer

- 63 Mae adolygiadau oer yn adolygiadau o archwiliadau cyfan i asesu'r modd y cydymffurfiwyd â safonau ansawdd rhagnodedig. Cânt eu cynnal ar ôl i'r archwiliad gael ei orffen. Caiff yr adolygiadau hyn eu hasesu yn erbyn system sgorio pedwar pwynt fel a ddisgrifir yn **Rhan 3** o'r adroddiad hwn.
- 64 Mae gennym bolisi ffurfiol o gylchdroi adolygiadau oer ar gyfer ein gwaith archwilio cyfrifon gydag archwiliadau'n cael eu dethol ar gyfer adolygiad yn unol â'r egwyddorion canlynol:
- caiff pob arweinydd ymrwymiad ei adolygu o leiaf bob dwy flynedd fel arfer (er bod hyn yn tueddu i fod yn flynyddol yn ymarferol); a hefyd
  - caiff pob rheolwr archwilio ei adolygu o leiaf bob pedair blynedd fel arfer.
- 65 Rydym hefyd yn amcanu at sicrhau bod cwmpas yr holl adolygiadau'n cynrychioli'r cyrff yr ydym yn eu harchwilio gan ystyried sectorau archwilio, meintiau'r cyrff a chymhlethdod.
- 66 Ar gyfer ein harchwiliadau o gyfrifon yn 2021-22, cynhaliwyd y rhaglen adolygu hon ar ein rhan gan QAD.
- 67 Ar gyfer archwilio perfformiad, rydym yn gweithredu dull cylchdro o adolygiadau oer. Mae ein dull yn golygu y bydd pob rheolwr archwilio perfformiad yn cael adolygiad oer o fewn cyfnod o dair blynedd. Hefyd, rydym yn amcanu at sicrhau bod cwmpas yr holl adolygiadau'n cynrychioli cyfarwyddwyr archwilio, cyrff a archwiliir, a'r mathau o archwiliadau.
- 68 Yn hanesyddol, mae cylch gwaith QAD wedi bod yn gyfyngedig i adolygu ein gwaith archwilio cyfrifon. Yn 2022, fe wnaethom dreialu'r defnydd o QAD yn llwyddiannus ar gyfer adolygiadau allanol o waith archwilio perfformiad.
- 69 Ar gyfer 2023, cafodd adolygiadau allanol o waith archwilio perfformiad eu mabwysiadu'n llawn gennym. Cynhaliwyd yr adolygiadau hyn gan QAD gan ddefnyddio'r un raddfa sgorio â'r adolygiadau o archwiliadau o gyfrifon. Fe wnaethom gynnal ymarferion dysgu-ar-ôl-prosiectau gyda rhai timau a fu'n rhan o'r adolygiadau i wella a chyfoethogi'r broses yn y dyfodol.

*"Mae adolygiad oer yn rhan bwysig o'n model tair llinell sicrwydd. Mae adolygiadau oer allanol wedi dwyn sawl budd o'i gymharu â'n dull blaenorol o adolygiadau oer mewnol. Er enghraifft:*

- *Darparu mwy o gysondeb a hyder yn y canlyniadau oherwydd bod yr adolygydd yn drydydd parti annibynnol.*
- *Mynd y tu hwnt i gydymffurfio i ddarparu ffocws gwerth ychwanegol i adolygiadau.*
- *Manteisio ar ddyfnder a chyfoeth gwybodaeth yr aseswr i adnabod arferion llwyddiannus a chyfleoedd i wella.*
- *Codi proffil mewnol gweithgarwch adolygu ansawdd.*

*Rydym wedi defnyddio canfyddiadau QAD o'r ymarfer peilot a rhaglen eleni i helpu i ddatblygu ein rhaglen dysgu a datblygu a gweithgareddau cefnogi ansawdd eraill e.e. adolygiadau thema."*

## **Tom Haslam**

Rheolwr Archwilio

- 70 Rydym yn amlinellu canfyddiadau cyffredinol QAD yn **Rhan 3**.
- 71 Rydym yn cymryd rhan mewn rhwydwaith o asiantaethau archwilio o bob rhan o'r DU ac Iwerddon. Mae hyn yn cynnwys rhaglen flynyddol o adolygiadau gan gymheiriaid o rai adroddiadau archwilio perfformiad. Rydym yn bwriadu defnyddio'r canlyniadau o'r adolygiadau hyn fel rhan o'n gwaith sy'n gysylltiedig ag INTOSAI ar ddiweddaru ein templedi adroddiadau a'n dull ysgrifennu.

## **Adolygiadau thema**

- 72 Adolygiadau heb sgôr o waith archwilio cyfrifon sy'n bwrw golwg ar faterion penodol ar draws nifer o archwiliadau yw adolygiadau thema. Mae ein holl adolygiadau thema wedi cael eu cynnal yn fewnol. Gallai'r rhain ganolbwyntio ar ba mor effeithiol y mae safon archwilio newydd wedi cael ei chymhwyso'n ymarferol; mater sy'n dod i'r amlwg a adnabwyd ar draws y proffesiwn; neu feysydd sydd o ddiddordeb neu'n peri pryder yn Archwilio Cymru. Fe'u bwriedir fel ymarferion dysgu i nodi a oes angen rhagor o hyfforddiant, arweiniad neu gymorth arall.
- 73 Mae adolygiadau thema diweddar wedi cynnwys archwilio amcangyfrifon cyfrifyddu a chyfrifoldebau arweinwyr ymrwymadau ar archwiliadau o gyfrifon llai o faint a llai cymhleth. Hefyd, hon oedd y flwyddyn gyntaf i ni gynnal adolygiad thema o lywodraethu gwybodaeth a data a oedd yn gysylltiedig â gwaith archwilio perfformiad.

*"Er mwyn cyflawni ein dyletswyddau diogelu data, rhaid i dimau archwilio storio gwybodaeth yn gywir. Mae pob archwiliad yn ein system rheoli dogfennau'n cynnwys ffolder cyfyngedig, nad yw ond yn hygyrch i aelodau o'r tîm archwilio. Mae hyn yn sicrhau nad yw staff ond yn cyrchu gwybodaeth bersonol a sensitif yn ôl yr angen i ateb gofynion archwilio. Rydym yn cefnogi'r dull hwn trwy hyfforddiant ac arweiniad.*

*Eleni, fe gynhaliom ni adolygiad thematig o'r modd y mae ein timau archwilio'n cydymffurfio â'n canllawiau ynghylch ffolderi cyfyngedig. Fe wnaethom samplu 16 o archwiliadau, a oedd yn cwmpasu pob rheolwr archwilio perfformiad. Mae'r canlyniadau'n dangos bod staff yn deall ac yn defnyddio'r ffolder*

*cyfyngedig yn dda. Fe wnaethom ddod o hyd i rai anghysonderau ar draws timau, y byddwn yn mynd i'r afael â hwy trwy ddiwygio ein canllawiau a darparu cyfleoedd e-ddysgu."*

**Gareth Jones**

**Yazmin Steelandt-Humphries**

Arweinydd Archwilio

Swyddog Diogelu Data

## Dadansoddi Achosion Sylfaenol

- 74 Mae Dadansoddi Achosion Sylfaenol (RCA) yn derm cyfunol sy'n disgrifio ystod eang o ddulliau, offer a thechnegau a ddefnyddir i adnabod prif achosion canlyniadau. Rhan o'r broses Dadansoddi Achosion Sylfaenol yw nodi camau priodol i atal canlyniadau negyddol rhag digwydd eto, a gwneud i ganlyniadau cadarnhaol ddigwydd eto. Mae Dadansoddiadau o Achosion Sylfaenol wedi'u bwriadu i ddatgelu cyfleoedd i barhau i wella a rhoi anogaeth i ddysgu a datblygu.
- 75 Ein nod yw gwneud gweithgareddau Dadansoddi Achosion Sylfaenol ar gyfer monitro ansawdd yn rhan o brosesau arferol. Bydd Dadansoddiadau o Achosion Sylfaenol yn digwydd lle rydym wedi adnabod materion neu ganlyniadau cadarnhaol y byddai o fudd eu harchwilio ymhellach. Er mwyn helpu i bennu ein dull a'n polisi ar gyfer Dadansoddi Achosion Sylfaenol, rydym wedi:
- cynyddu ein gwybodaeth am Ddadansoddi Achosion Sylfaenol trwy sefydlu grŵp rhanddeiliaid Dadansoddi Achosion Sylfaenol mewnol ac ymgysylltu â sefydliadau archwilio eraill.
  - cynnal pum ymarfer peilot o Ddadansoddi Achosion Sylfaenol - tri ohonynt yn cwmpasu materion a oedd wedi dod i'r amlwg o fewn gwahanol dimau yn y sefydliad a dau ohonynt yn bwrw golwg ar ganlyniadau cadarnhaol.
  - dechrau adnabod gweithgareddau dysgu a datblygu penodol i feithrin sgiliau a chapasiti ym maes Dadansoddi Achosion Sylfaenol.

*"Mae Dadansoddi Achosion Sylfaenol yn ein helpu i ddeall y materion sylfaenol - nid y symptomau yn unig - a defnyddio hyn i atal problemau yn y dyfodol neu ailadrodd llwyddiannau. Mae'r ymarferion peilot i Ddadansoddi Achosion Sylfaenol eisoes yn cael effeithiau cadarnhaol ar ein prosesau busnes, gan sicrhau bod digwyddiadau tebyg yn llai tebygol, a rhoi sicrwydd y bydd camau gweithredu sydd ar y gweill yn mynd i'r afael ag achosion sylfaenol y mater.*

*Gellir defnyddio sgiliau a thechnegau Dadansoddi Achosion Sylfaenol wrth gyflawni gwaith archwilio hefyd. Er enghraifft, sicrhau bod ein hargymhellion wedi'u targedu at achosion sylfaenol nid symptomau. Rydym wedi cyflwyno pedwar gweithdy i oddeutu 60 o archwilyr ar egwyddorion a chymhwyso dulliau Dadansoddi Achosion Sylfaenol."*

## Katherine Simmons

Arweinydd Archwilio

### Adolygiadau Rheoli Ansawdd Ymrwymadau (EQCRs)

- 76 Mae Adolygiadau Rheoli Ansawdd Ymrwymadau'n adolygiadau o ffeiliau archwilio cyfrifon, neu rannau o ffeiliau archwilio a gynhelir cyn cwblhau'r archwiliad. Fe'u cyflawnir gan gyfarwyddwyr sy'n gymheiriaid a gallant fod yn ofynnol mewn nifer o amgylchiadau, megis lle mae arweinydd ymrwymiad newydd yn ei lle; lle cynigir adroddiad archwilio amodol; lle mae'r arweinydd ymrwymiad yn gofyn am adolygiad cymheiriaid o fater technegol neu gymhleth; neu, lle'r oedd mater a oedd yn ymwneud ag ansawdd mewn blynyddoedd blaenorol. Nid yw'r adolygiadau hyn yn cael eu sgorio. Yn hytrach, fe'u cynhelir i ganolbwyntio ar feysydd risg ac i'w gwneud yn bosibl datrys unrhyw faterion sy'n peri pryder gael eu datrys cyn i'r farn archwilio gael ei rhoi.
- 77 Roedd ein gwaith Adolygiadau Rheoli Ansawdd Ymrwymadau ym mlwyddyn archwilio 2021-22 yn cynnwys adolygiadau o newidiadau arfaethedig i adroddiadau archwilio gan gynnwys yr archwiliadau o Lywodraeth Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Fe wnaethom hefyd gynnal gwiriadau cysondeb a oedd yn ymwneud â materion a oedd yn gyffredin i nifer o gyrff archwilio.

### Pwyllgor Ansawdd Archwilio

- 78 Sefydlwyd y Pwyllgor Ansawdd Archwilio yn 2020 i gryfhau ein fframwaith ansawdd archwilio gyda golwg ar gynyddu tryloywder y trefniadau hynny a gwella hyder ynddynt. Mae'r Pwyllgor – sy'n cwrdd yn chwarterol yn unol â'i raglen waith – yn cynnwys:
- Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol Archwilio Cymru (Cadeirydd);
  - Y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Archwilio yn Archwilio Cymru;
  - Cyfarwyddwyr technegol archwilio ariannol ac archwilio perfformiad Archwilio Cymru;
  - Y rheolwyr ansawdd archwilio yn Archwilio Cymru; ac
  - aelod proffesiynol annibynnol – Suzanne Walsh – sy'n gyfarwyddwr gyda Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon.
- 79 Amcanion penodol y Pwyllgor yw ein cynorthwyo i sicrhau:
- bod y trefniadau sydd gan Archwilio Cymru i reoli a monitro ansawdd archwilio'n effeithiol ac yn gyson â safonau ansawdd rhyngwladol;
  - bod gwaith yr Archwilydd Cyffredinol o safon ansawdd briodol ac yn ateb y gofynion a nodir yng nghanllawiau Archwilio Cymru ac mewn safonau proffesiynol (lle y bo'n berthnasol); a

- bod ansawdd archwilio'n parhau i wella yn unol ag arfer proffesiynol gorau.

80 Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol yn benodol am ddarparu sicrwydd ar gyfer yr Archwilydd Cyffredinol bod adnoddau priodol yn eu lle i roi cymorth i reoli, monitro a gwella ansawdd archwilio yn Archwilio Cymru. Cyflawnir hyn trwy Adroddiad Annibynnol Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol, sy'n rhan o'r Adroddiad Ansawdd hwn.

## **Cyswllt Ansawdd Archwilio'r Bwrdd**

- 81 Mae Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru wedi cytuno i weithredu fel Cyswllt Ansawdd y Bwrdd i gynorthwyo'r Bwrdd i ddatblygu dealltwriaeth lawnach am ein trefniadau ansawdd archwilio, am yr heriau a wynebier gennym wrth geisio cyflawni ansawdd archwilio ac i wella tryloywder y trefniadau hynny.
- 82 Rydym ni'n credu bod y rôl hon yn elfen bwysig o'n huchelgais i gyflawni gwelliant parhaus mewn ansawdd archwilio.

# Rhan 3: Canlyniadau ansawdd archwilio


## Adolygiadau oer

- 83 Yn Rhan 2 o'r adroddiad hwn rydym yn disgrifio'r prosesau adolygiadau oer sydd gennym i werthuso ansawdd archwiliadau a gwblhawyd.
- 84 Rydym yn crynhoi canlyniad yr adolygiadau hynny isod, gan ddefnyddio system sgorio pedwar pwynt:
- 1 – Da
  - 2 – Derbyniol ar y cyfan
  - 3 – Angen gwelliannau
  - 4 – Angen gwelliannau sylweddol
- 85 Targed Archwilio Cymru ar hyn o bryd yw y dylai 100% o'r archwiliadau a gaiff eu samplu gael sgôr o 2 neu uwch yn yr asesiad.

### Canlyniadau adolygiadau oer o archwiliadau o gyfrifon

- 86 Fel a nodir yn **Rhan 2**, cafodd y rhaglen o adolygiadau oer o archwiliadau o gyfrifon yn 2020-21 ei chynnal gan QAD. Cyflwynir canlyniadau'r adolygiadau hynny yn **Arddangosyn 3** yn ôl blynyddoedd ariannol yr archwiliadau.

### Arddangosyn 3: canlyniadau adolygiadau oer o archwiliadau o gyfrifon yn ôl blwyddyn archwilio o 2019-20 i 2021-22



Ffynhonnell: QAD

87 Caiff yr alldro yn erbyn ein targed cyfredol ei grynhoi yn **Arddangosyn 4**.

#### Arddangosyn 4: archwiliadau o gyfrifon – cymharu â'r targed

| DPA                                       | Targed      | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | Cyfartaledd dros dair blynedd |
|-------------------------------------------|-------------|---------|---------|---------|-------------------------------|
| Wedi cael sgôr o 2 neu uwch yn yr asesiad | <b>100%</b> | 100%    | 75%     | 100%    | 92%                           |

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

- 88 Roedd yr holl ffeiliau archwilio a adolygwyd yn cyrraedd ein targed ansawdd ac roedd canfyddiadau cyffredinol QAD fel a ganlyn:
- "Ar y cyfan, roedd y gwaith archwilio a adolygwyd gennym yn dal i fod o safon dda, gyda'r holl ymrwymadau a adolygwyd naill ai'n dda neu'n dderbyniol yn gyffredinol."
- 89 Nododd QAD rai meysydd i'w gwella yn y sampl o ffeiliau a adolygwyd ac roedd thema gyffredin a oedd yn ymwneud â'r ddibyniaeth ar waith archwilydd neu arbenigwr arall. Rydym wedi buddsoddi mewn arbenigedd archwilwyr ychwanegol mewn meysydd allweddol, gan gynnwys prisiadau eiddo a phrasiadau pensiwn. Bu angen i ni fod yn ymwybodol hefyd o'r gost i bwrs y wlad a ffactorau allanol eraill, gan gynnwys Adolygiad Thematig Trysorlys EF o Brisio Asedau Nad Ydynt yn Fuddsoddiad at Ddibenion Adrodd Ariannol.

*"Mae disgwyliadau rheoleiddwyr ansawdd archwilio yn ysgogi'r angen am fwy o fuddsoddiad mewn gwasanaethau proffesiynol i gefnogi ein gwaith archwilio, megis prisiadau eiddo ac adolygiadau actiwaraid o rwymedigaethau pensiwn.*

*Rydym wedi buddsoddi ar gyfer archwiliadau 2022-23 i sefydlu llinell sylfaen i wella ein dealltwriaeth yn y meysydd hynod dechnegol a chymhleth hyn.*

*Gan adeiladu ar y profiadau hyn, byddwn yn asesu gwerth y buddsoddiad hwn ac yn datblygu strategaeth ar gyfer cael sicrwydd yn y dyfodol mewn meysydd risg allweddol o'r fath. Rhan o'r strategaeth hon yw adeiladu ar y gwaith hwn a*

*datblygu sgiliau mwy arbenigol a mwy o arbenigedd ar draws timau archwilio yn y meysydd hyn."*

### **Terry Jones**

Rheolwr Technegol ac Ansawdd


90 Nododd QAD rai meysydd lle ceir arfer da fel a ganlyn:

- 'Dogfennu'n glir (gan gynnwys cysondeb â'r gofrestr asedau sefydlog a'r cysylltiadau â gwaith a gyflawnwyd);
- Tystiolaeth dda bod yr Arweinydd Ymrwymiad newydd yn cynnal cyfarfod gyda'r Rheolwr Archwilio a'r Arweinydd Archwilio i drafod y materion allweddol; ac
- Roedd pwyntiau a godwyd gan yr actiwari ymgynghori ar gyfer gwaith dilynol wedi cael sylw clir.'

### **Canlyniadau adolygiadau oer o waith archwilio perfformiad**

- 91 Nid yw gwaith archwilio perfformiad o reidrwydd yn cyd-daro â blwyddyn ariannol benodol. Yn 2021 a 2022 fe wnaethom gynnal a sgorio adolygiadau oer yn fewnol. Fel a nodir **yn Rhan 2**, yn 2022 fe wnaethom hefyd dreialu adolygiadau allanol o waith archwilio perfformiad gan QAD, a oedd heb eu sgorio. Roedd y peilot yn llwyddiannus ac yn 2023, fe wnaeth QAD gynnal a sgorio'r holl adolygiadau oer o waith archwilio perfformiad.
- 92 Fel rhan o'n newid i adolygiadau oer allanol fe wnaethom leihau cyfanswm yr adolygiadau oer bob blwyddyn i un am bob cyfarwyddwr archwilio. Roedd hyn yn gyson â'n dull ar gyfer adolygiadau oer o waith archwilio cyfrifon a'n nod i adolygu pob rheolwr archwilio perfformiad unwaith mewn cyfnod o dair blynedd.
- 93 Mae canlyniadau'r adolygiadau oer a gyflwynir yn **Arddangosyn 5** yn cyfeirio at y blynyddoedd calendr pan gwblhawyd yr adolygiadau oer a phan adroddwyd arnynt.

Arddangosyn 5: canlyniadau adolygiadau oer o waith archwilio perfformiad yn ôl blwyddyn galendr rhwng 2021 a 2023



Ffynhonnell: Archwilio Cymru (2021 a 2022), QAD (2023)

94    Caiff yr alldro yn erbyn ein targed cyfredol ei grynhoi yn **Arddangosyn 6**.

Arddangosyn 6: archwilio perfformiad – cymharu â'r targed

| DPA                                       | Targed | 2021 | 2022 | 2023 | Cyfartaledd dros dair blynedd |
|-------------------------------------------|--------|------|------|------|-------------------------------|
| Wedi cael sgôr o 2 neu uwch yn yr asesiad | 100%   | 75%  | 67%  | 67%  | 70%                           |

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

- 95 Fe wnaeth dwy o'n ffeiliau archwilio perfformiad gyrraedd ein targed ar gyfer adolygiadau oer yn 2023. Mewn perthynas â'r adolygiad oer o'r drydedd ffeil, nododd QAD feysydd lle gallwn gryfhau ein dull yn y dyfodol o ymdrin â'r adolygiadau hynny yr ydym yn eu cyflawni ar draws yr holl gyrff a archwilir mewn sector penodol. Rydym wedi newid y tîm llywodraeth leol i sicrhau bod yr holl waith thematig yn cael ei reoli a'i gyflawni gan dîm canolog. Bydd y dull hwn yn sicrhau cysondeb ac yn meithrin gwybodaeth gryfach am y pwnc archwilio. Bydd y tîm canolog yn datblygu'r fethodoleg archwilio, gan hwyluso dull cryfach o gynllunio a datblygu meini prawf archwilio, a ddylai gynyddu effaith ar lefel genedlaethol ac yn lleol o fewn cynghorau unigol. Dylai'r newidiadau strwythurol i'r tîm llywodraeth leol sicrhau cysylltiadau agosach â gweithgarwch archwilio astudiaethau cenedlaethol gan leihau'r risg o ddyblygu a chefnogi dull mwy cydweithredol. Rydym hefyd yn adolygu'r fethodoleg ar gyfer Asesiadau Risg Blyneddol (ARA) cynghorau i gryfhau'r dull sy'n seiliedig ar risg o gynnal gwaith thematig llywodraeth leol.
- 96 Dyma ganfyddiadau cyffredinol QAD ar gyfer yr adolygiadau o waith archwilio perfformiad:
- 'Ar y cyfan canfuom fod yr archwiliadau o berfformiad yn cydymffurfio â gofynion y Llawlyfr Cyflawni Gwaith Archwilio Perfformiad (PADM).
  - Mae Archwilio Cymru mewn cyfnod trosiannol wrth iddo roi safonau INTOSAI ar waith mewn perthynas â'i waith archwilio perfformiad.'
- 97 Hefyd, canfu QAD rywfaint o arfer da ym mhob un o'r ffeiliau archwilio perfformiad a adolygwyd. Roedd hyn yn cynnwys:
- Cwestiynau archwilio clir ochr yn ochr â defnyddio ddangosyddion cadarnhaol (sy'n cyfateb i feini prawf archwilio at ddibenion yr adolygiad hwn), yr oedd yr adroddiad yn mynd i'r afael â hwy'n ddigonol.
  - Gridiau tystiolaeth sy'n dangos hierarchaeth glir o ran y cwestiynau archwilio, gyda strwythur a threfn sy'n resymegol ac awgrymiadau perthnasol i alluogi lefel ddyfnach o gwestiynu.
  - Cofnodi'n glir sut y cafodd sylwadau ar yr adroddiad drafft eu hadolygu a, lle y bo'n berthnasol, lle'r ymdriniwyd â hwy.
  - Gwaith wedi'i ddiffinio'n dda a oedd yn aros o fewn y cwmpas a bennwyd.

# Eich cefnogi chi

Mae Archwilio Cymru wedi datblygu ystod o adnoddau i roi cymorth gyda gwaith i graffu ar gyrff cyhoeddus Cymru ac i roi cymorth i'r cyrff hynny barhau i wella'r gwasanaethau y maent yn eu darparu ar gyfer pobl Cymru.

## Ewch at ein gwefan i gael y canlynol:

|                                                                                     |                                                                                                                                                                                                |
|-------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|    | ein gwaith <b>Arfer Da</b> lle rydym yn rhannu arfer sy'n dod i'r amlwg a mewnwleidiadau o'n gwaith archwilio i gefnogi ein hamcanion i sicrhau, esbonio ac ysbrydoli.                         |
|    | ein <b>cylchlythyr</b> sy'n rhoi diweddariadau rheolaidd i chi am ein gwaith archwilio gwasanaethau cyhoeddus, arfer da a digwyddiadau.                                                        |
|  | ein <b>cyhoeddiadau</b> sy'n cwmpasu ein gwaith archwilio a gwblhawyd mewn cyrff cyhoeddus.                                                                                                    |
|  | gwybodaeth am ein <b>blaenraglen waith archwilio perfformiad 2023-2026</b> a gaiff ei llunio gan weithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid a'n dadansoddiad darlun o wasanaethau cyhoeddus.       |
|  | amryw <b>offer data</b> a <b>ffeithluniau</b> i'ch helpu i ddeall tueddiadau gwariant cyhoeddus yn well gan gynnwys ystod o fewnwleidiadau eraill i graffu ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. |

Gallwch gael gwybod mwy am Archwilio Cymru yn ein **Cynllun Blynnyddol 2023-24** a hefyd **Ein Strategaeth 2022-27**.





Archwilio Cymru

Cwr y Ddinas

1 Stryd Tyndall

Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

Gwefan [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)

Rydym yn croesawu gohebiaeth a  
galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a  
galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.